| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **15 Mehefin 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |

**Teitl:** **Strategaeth ar Atal a Datgelu Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo**

---

## 1 Beth yw cynnwys yr adroddiad?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn sôn am adolygu strategaeth y Cyngor ar atal a datgelu twyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyo.

## 2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I alluogi Aelodau ystyried y strategaeth wedi'i diweddaru.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau yn ystyried cynnwys y strategaeth ddrafft sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn, a'i hargymell i gael ei chymeradwyo gan y Cabinet.

## 4 Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae'r Cyngor yn cyflogi nifer sylweddol o staff ac yn gwario miliynau o bunnoedd y flwyddyn. Mae'n comisiynu a darparu amrywiaeth eang o wasanaethau i unigolion a chartrefi ac mae'n gweithio gydag ystod eang o sefydliadau yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol.

4.2 Fel unrhyw sefydliad mawr arall, mae maint a natur gwasanaethau'r Cyngor yn golygu bod risg cyfredol o golled oherwydd twyll a llygredigaeth gan ffynonellau mewnol ac allanol. Hefyd, mae risg cyfredol o lwgrwobrwyo gan fod y Cyngor yn darparu a chael nwyddau, gwaith a gwasanaethau. Felly mae'r Cyngor wedi rhoi systemau cymesur mewn lle i leihau'r risg hwn, a bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n gyson.

4.3 Mae'r Cyngor yn cydnabod yn ogystal ag achosi colled ariannol, mae twyll a llygredigaeth hefyd yn niweidiol i ddarparu gwasanaethau a niweidio enw da'r Cyngor a chyrff cyhoeddus yn gyffredinol.

4.4 Mae'r strategaeth ddrafft wedi ei hatodi yn Atodiad 1 yr adroddiad. Roedd y Polisi yn arfer bod yn un ddogfen hir. Mae datganiad polisi bellach yn un tudalen o hyd ac ar ddechrau'r ddogfen strategaeth sy'n cynnwys y prif egwyddorion y bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â thwyll, llwgrwobrwyo a

llygredigaeth. Yn y Datganiad Polisi hwn a'r gweithdrefnau sy'n ei gefnogi, mae'r Cyngor yn rhoi neges glir yn nodi na fydd yn goddef unrhyw anweddustra gan weithwyr, aelodau etholedig neu sefydliadau trydydd parti.

4.5 Mae'n bwysig bod unrhyw bolisi sy'n honni i wrthsefyll y bygythiad o dwyll a llygredigaeth yn cael ei gadw'n gyfoes a'i adolygu yng ngoleuni datblygiadau deddfwriaethol, technolegol a phroffesiynol newydd.

4.6 Cymeradwywyd Polisi Gwrth-dwyll a Llygredigaeth gyfredol y Cyngor yn 2006.

4.7 Mae'r strategaeth ddrafft diwygiedig hon yn ystyried y newidiadau i ddeddfwriaeth a ddaeth yn sgil Deddf Llwgrwobrwyo 2010. Hefyd mae'r canllaw yn ystyried canllaw arfer orau megis y Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli Risg o Dwyll a Llygredigaeth.

4.8 Er nad oes gan y Cyngor llawer o brofiad o weithgaredd twyllodrus wedi'u canfod yn y blynyddoedd diweddar, mae hi'n bwysig iawn i barhau i fod yn wyliadwrus a bod holl weithwyr, aelodau etholedig a phartneriaid yn ymwybodol o'r risg o dwyll a sut i adrodd am bryderon neu ddrwgdybiaethau. Mae'r strategaeth yn rhoi cyngor clir ar sut, ac i bwy y dylid adrodd am unrhyw ddrwgdybiaethau. Hefyd, mae datganiad clir o ymrwymiad y Cyngor i gymryd camau gorfodi cadarn lle bynnag y datgelir gweithgaredd anghyfreithlon neu lwgr.

4.9 Mae Cod Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn argymell y dylai sefydliad gydnabod cyfrifoldeb i sicrhau bod risg o dwyll a llygredigaeth yn cael eu rheoli'n effeithiol, adnabod dadleniad penodol at risg, datblygu strategaeth gwrth-dwyll, darparu adnoddau i gefnogi'r strategaeth honno a rhoi polisïau mewn lle i gefnogi'r strategaeth.

4.10 Bydd y Cyngor yn parhau i addasu a mabwysiadu dulliau rhagweithiol i atal gweithgareddau twyllodrus, a bydd Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y rheolaethau hyn.

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Nid yw'r penderfyniad yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r blaenoriaethau corfforaethol, fodd bynnag, mae dull cadarn tuag at risg o dwyll a llygredigaeth yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau drwy geisio lleihau'r risg o'r difrod ariannol ac enw da y gall twyll a llygredigaeth ei achosi.

## 6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 7 Pa ymgynghori a wnaed, ac a gynhaliwyd Sgriniad i Asesu Effaith ar Gydraddoldeb?

7.1 Nid oes angen asesiad o effaith ar gydraddoldeb.

## 8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

8.1 Mae’r Polisïau hyn yn cynorthwyo i wella fframwaith llywodraethu a sicrwydd y Cyngor.

## 9 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

9.1 Y risg os na chaiff y Polisi ei ddiweddaru yw na fydd gan y Cyngor strategaeth gyfoes i fynd i'r afael â thwyll a llygredigaeth.

## 10 Pŵer i wneud Penderfyniad

10.1 Adrannau 111 a 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972.